**17th July 2019**

**Llannon Community Council**

**Minute no. 69 – Members Present**

**Councillors**:

N Holman
M Jones
D Snaith
L Davies
S Acciaioli
L Williams
P Williams
W James
G Jones (late arrival)
D Jones (late arrival)

| Chairman Councillor N Holman presided over the meeting |
| --- |

**Also present:** The Clerk and the Responsible Finance Officer (RFO).

**Minute no. 70 – Apologies for Absence**

Apologies for absence were received from Cllrs E Dole, K Thomas and P Edwards.

**Minute no. 71 – Declarations of Interest**

A declaration of interest was received from Councillor D Jones as she is a County Councillor and sits on the Planning Committee.

**Minute no. 72 – Matters Arising from Minutes**

Minute no 47 e – CCTV

The Clerk reported that the CCTV system will be installed the following day.

Minute no 47 e – Skateboard park

The Clerk reported that quotations had been received from 3 consultants to provide development services for this project. It was **resolved** to accept the lowest quotation in the sum of £7,300 from MaliandHera Ltd.

Minute no 47 d - Adverse Possession

Cllr L Williams provided a report on correspondence as received from the land registry with regard to a claim as registered for adverse possession of a parcel of land adjacent to Tumble Park.

Minute no 49 - Risk Assessment Committee

It was agreed to convene the above meeting date as soon as possible. It was agreed the group should have plenary powers to appoint a consultant to assist in this work.

Minute no. 65 – Hanging baskets

Cllr W James reported that it had not been possible to move the hanging baskets due to the cost of hiring a cherry picker.

**Gorffennaf 17eg 2019**

**Cyngor Cymuned Llannon**

**Cofnod rhif 69 – Aelodau'n Bresennol**

**Cynghorwyr**:

N Holman
M Jones
D Snaith
L Davies
S Acciaioli
L Williams
P Williams
W James
G Jones (cyrraedd yn hwyr)
D Jones (cyrraedd yn hwyr)

Y Cadeirydd, y Cynghorydd N Holman, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC).

**Cofnod rhif 70 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr E Dole, K Thomas a P Edwards.

**Cofnod rhif 71 – Datganiadau o Fuddiant**
Derbyniwyd datganiad o fuddiant oddiwrth y Cynghorydd D Jones gan ei bod yn Gynghorydd Sir ac y aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

**Cofnod rhif 72 – Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Cofnod rhif 47 e – System Teledu Cylch Cyfyng
Dywedodd y Clerc y bydd y System Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei osod yn ei le ar y diwrnod nesaf.

Cofnod rhif 47 e – Parc Sglefr-fyrddio
Dywedodd y Clerc bod dyfynbrisiau wedi'u derbyn oddiwrth 3 ymgynghorwr i ddarparu gwasanaeth datblygu ar gyfer y prosiect hwn. **Penderfynwyd** derbyn y dyfynbris isaf, sef pris o £7,300 a gyflwynwyd gan MaliandHera Ltd.

Cofnod rhif 47 d – Meddiannaeth Wrthgefn
Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd L Williams ynghylch yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddiwrth y gofrestrfa tir parthed â chais i gofrestru meddiannaeth wrthgefn darn o dir ger Parc y Tymbl.

Cofnod rhif 49 – Pwyllgor Asesu Risg
Cytunwyd galw cyfarfod o'r pwyllgor uchod cyn gynted ag y bo modd. Cytunwyd y dylai'r grŵp dderbyn awdurdod llwyr i benodi ymgynghorydd i'w helpu gyda'r gwaith hwn.

Cofnod rhif 65 – Basgedi Crog
Dywedodd y Cynghorydd W James nad oedd hi wedi bod yn bosib symud y basgedi crog oherwydd y gost o logi peiriant 'cherry picker'.

**Minute no. 73 – Cllrs D Jones and G Jones**
Councillors D Jones and G Jones entered the meeting.

**Minute no. 74 – Matters Arising from Minutes continued**
Minute no. 55 – Orchard and Sensory Garden
Cllr L Williams reported that sites have been identified for the proposed planting of trees in the parks in the community. Specialist advice with regard to the identification of appropriate trees has been received from a local supplier.
It was noted that Virgin are currently offering grant funding for such schemes.

Minute no. 59 – Balbini Family
It was reported that a seat erected as part of the remembrance of the Balbini family needed renewal. It was **resolved** to provide a replacement seat where appropriate.

Minute no. 61 – Safe Routes in the Community
Cllr D Jones reported that there had been further discussion with officers regarding the adequacy of the current safe route to schools.
It was agreed that the Council presents a bid to the County Council for improvements to the pavement at Llannon square.

**Minute no. 75 – Signing of the Minutes – 9th July 2019 Hall Committee Minutes**
**Resolved that** the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
**Reason –** to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

**Minute no. 76 – Matters Arising from Minutes**
Minute 3 – Advertising options
It was reported that the advertising option for Tumble Hall as offered by Radio Carmarthenshire is no longer available. It was **resolved** to accept an alternative quotation for five 10 second advertisements to be broadcast at 5pm and a further 4 30 second advertisements.

**Minute no. 77 – Signing of the Minutes – 15th July 2019 – Finance & Audit Committee**
**Resolved that** the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
**Reason –** to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

**Minute no. 78 – Matters Arising from Minutes**
Minute 11 – Corporate/Financial Risk Policy
**Resolved** to approve the Corporate/Risk Management Policy as recommended by the Finance & Audit Committee.

Minute 12 – Information Security Policy
**Resolved** to approve the Information Security Policy as recommended by the Finance & Audit Committee.

**Minute no. 79 – Signing of the Minutes – 11th July 2019 - Personnel Committee Meeting**

**Cofnod rhif 73 – Y Cynghorwyr D Jones a G Jones**
Cyrhaeddodd y Cynghorwyr D Jones a G Jones y cyfarfod.

**Cofnod rhif 74 – Materion yn Codi o'r Cofnodion - parhad**
Cofnod rhif 55 – Perllan a Gardd Synhwyraidd
Dywedodd y Cynghorydd L Williams bod safleoedd wedi'u hadnabod ar gyfer plannu coed yn y parciau yn y gymuned. Derbyniwyd cyngor arbenigol oddiwrth cyflenwr lleol ynghylch adnabod coed addas.
Nodwyd bod cwmni Virgin yn cynnig grant ar hyn o bryd i gyllido cynlluniau o'r math.

Cofnod rhif 59 – y Teulu Balbini
Dywedwyd bod angen adnewyddu mainc a osodwyd er cof am y teulu Balbini.
**Penderfynwyd** y dylid darparu mainc amnewid mewn lleoliad addas.

Cofnod rhif 61 – Llwybrau Diogel yn y Gymuned
Dywedodd y Cynghorydd D Jones ei bod wedi trafod ymhellach gyda'r swyddogion ynghylch digonolrwydd y llwybrau diogel yn y gymuned i'r ysgolion presennol. Cytunwyd bod y Cyngor yn cyflwyno cais i'r Cyngor Sir i wella'r pafin ar sgwâr Llannon.

**Cofnod rhif 75 – Llofnodi'r Cofnodion – Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Neuadd – Gorffennaf 9fed 2019**
**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.
**Rheswm –** i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

**Cofnod rhif 76 – Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Cofnod rhif 3 – Opsiynau hysbysebu
Dywedwyd nad oedd yr opsiwn i hysbysebu Neuadd y Tymbl ar Radio Carmarthenshire bellach ar gael. **Penderfynwyd** derbyn dyfynbris amgen am bump hysbyseb yn para am 10 eiliad i'w darlledu am 5 yh, ynghyd â 4 hysbyseb 30 eiliad o hyd.

**Cofnod rhif 77 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio – Gorffennaf 15fed 2019.**
**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.
**Rheswm –** i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

**Cofnod rhif 78 – Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Cofnod rhif 11 – Polisi Risg Corfforaethol/Ariannol
**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Risg Corfforaethol/Ariannol yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio.

Cofnod rhif 12 – Polisi Diogelwch Gwybodaeth
**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio.

**Cofnod rhif 79 – Llofnodi'r Cofnodion – Gorffennaf 11eg 2019 – Cyfarfod y Pwyllgor Personél**

**Resolved that** the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.
**Reason –** to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

**Minute no. 80 – Job Description – Leader & Project's Coordinator**
The Council received and approved an amended copy of the above job descriptions.

**Leader**

- In consultation with the Clerk,
    - review and monitor finance records, monitor spending against budgets.
    - Oversee the council audit arrangements.
    - Review Standing Orders and Financial Regulations in relation to expenditure.
    - Assess grant spend.
    - Review and scrutinise the Council financial affairs.
    - Review finance statements.
- Liaise with staff to help resolve issues if requested.
- Provide assist with training and personal improvement.
- Liaising with and monitoring of the voluntary committees with regards to activities within the Council's properties and activities which support the Council within the delivery of its duties. Furthermore, in consultation with the CDO, to monitor and support activities of these committees, and wider community groups within Llannon ward which support the improvement of the priority areas as agreed by the Council.

**Project Coordinator**

- Liaising with the Clerk and Community Development Officer (CDO) to plan the activities of the Council in relation to Community Development, Council Projects and/or general duties both within Council owned assets and the wider community.
- Together with the Clark, Leader and CDO, assess any finance implications for the projects of the Council.
- Monitor of the Council's direct delivery projects, including initial design, based upon ability to meet the needs of the Council and the community, ongoing programme management and funding.
- Monitoring of external projects to which the Council is a stakeholder, to establish attainment in improving the lives of the Llannon ward residents and the future sustainability of the Council and community as a whole.
- Planning of future project funding requirements, in consultation with the Clerk, and their ability to meet the duties of the Well-being of Future Generations Act, in consultation with the CDO.
- To work in partnership with the Leader, Clerk and RFO to monitor the expenditure of the Council against approved project budgets and recommend any specific decisions to the Council.
- To provide oversight and support to all officers of the Council with regards to the Council's compliance with all relevant Health and Safety duties.

It was noted that the Standing Orders and the Protocol for relationships between Councillors and Staff Members will need to be reviewed/amended to reflect the content of
**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u

darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.
**Rheswm –** i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

**Cofnod rhif 80 – Swydd Ddisgrifiad – Arweinydd a Chydlynydd Prosiectau**
Roedd y Cyngor wedi derbyn ac wedi cymeradwyo copi diwygiedig o'r swydd ddisgrifiadau uchod.

**Arweinydd**

- Gan ymgynghori gyda'r Clerc i,
    - adolygu a monitro cofnodion cyllid, monitro gwariant yn erbyn cyllidebau.
    - Goruchwylio trefniadau archwilio y Cyngor.
    - Adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yng nghyd-destun gwariant.
    - Asesu gwariant grant.
    - Adolygu a chraffu ar faterion cyllidol y Cyngor.
    - Adolygu datganiadau ariannol.
- Ymgysylltu â'r staff i helpu datrys unrhyw broblem.os y gofynnir iddo wneud hynny.
- Darparu cefnogaeth gydag hyfforddiant a datblygiad personol.
- Ymgysylltu â, a monitro'r pwyllgorau gwirfoddol ynghylch eu gweithgareddau a gynhelir yn eiddo'r Cyngor a'u gweithgareddau sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau. Gan ymgynghori gyda'r SDC, monitro a chefnogi gweithgareddau'r pwyllgorau hyn, a'r grwpiau ehangach o fewn ward Llannon sy'n cefnogi gwelliant yn yr ardaloedd a flaenoriaethir gan y Cyngor.

**Cydlynydd Prosiect**

- Ymgysylltu gyda'r Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC) i gynllunio gweithgareddau'r Cyngor o ran Datblygu Cymunedol, Prosiectau'r Cyngor a/neu dyletswyddau cyffredinol yn yr asedau a berchnogir gan y Cyngor, ac yn y gymuned ehangach.
- Ynghyd â'r Clerc, yr arweinydd a'r SDC, asesu unrhyw goblygiadau ariannol i brosiectau'r Cyngor.
- Monitro prosiectau uniongyrchol y Cyngor, gan gynnwys y cynllunio cychwynnol, yn seiliedig ar y gallu i gwrdd ag anghenion y Cyngor a'r gymuned, rheoli a chyllido rhaglenni yn barhaus.
- Monitro'r prosiectau allanol hynny y mae'r Cyngor yn rhanddeiliad ohonynt, ceisio gwella bywydau preswylwyr ward Llannon a chynaliadwyedd y Cyngor a'r gymuned gyfan at y dyfodol.
- Gan ymgynghori gyda'r Clerc a'r SDC, cynllunio anghenion cyllido prosiectau'r dyfodol, a'u gallu i ddiwallu gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cydweithio mewn partneriaeth gyda'r Arweinydd, y Clerc a'r SDC i fonitro gwariant y Cyngor yn erbyn cyllidebau prosiect a gymeradwywyd, ac i argymell unrhyw benderfyniadau penodol i'r Cyngor.
- I oruchwylio a chefnogi holl swyddogion y Cyngor o ran cydymffurfedd y Cyngor â'r holl ddyletswyddau Iechyd a Dioglewch perthnasol.

Nodwyd y bydd angen adolygu/diwygio'r Rheolau Sefydlog a'r Protocol ynghylch y berthynas rhwng Cynghorwyr ac Aelodau o Staff er mwyn adlewyrchu cynnwys the job descriptions.

**Minute no. 81 – Finance Reports**
The RFO provided an overview of the following reports as previously circulated.

- Bank Reconciliation
- Invoices due
- Invoices Paid
- Analysis of expenditure for Tumble Hall account

**Minute no. 82 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act**
**(a) Proposed Development**
**Resolved that** the following applications be noted onto the minutes.
**Reason:** Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

***Councillor D Jones declared an interest and left the meeting whilst planning matters were discussed.***

S/39103 Two storey rear extension with associated minor alterations at 16 Tyisha Road, Tumble. Mr Andrew and Mrs Nerissa Faulkner.

**b) Decision Notices Granted**
**Resolved that** the following applications be noted onto the minutes.
None received.

**(c) Decision Notices Refused**
None received.

**(d) Decision Notices Appealed**
None received.

**(e) Planning objections**
S/39124 - Change of use of part of bus depot (Sui-Generis) to B2 (General Industrial) a Derlwyn Garage, Heol Y Neuadd, Tumble. Elliston Lettings Ltd.

**Resolved** to object to this proposed change of use to B2 as this is inappropriate for this site.

**(f) Pre-planning Consultation**
Proposed construction of residential development comprising 60 no. dwellings with associated access, parking, landscaping and infrastructure works on Plot 2B (land north of West link) Cross Hand, Llanelli. Asbri Planning – Richard Bowen.

The Council considered the above pre-planning consultation and agreed upon the following:

A mix of units should include:

- Bungalows for elderly/disabled persons.

y disgrifiadau swydd.

**Cofnod rhif 81 – Adroddiadau Ariannol**
Cafwyd trosolwg gan y SCC o'r adroddiadau canlynol a ddosbarthwyd yn flaenorol:

- Cysoniad Banc
- Anfonebau sy'n ddyledus
- Anfonebau a dalwyd
- Dadansoddiad o wariant cyfrif Neuadd y Tymbl

**Cofnod rhif 82 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref**
**(a) Datblygiad Arfaethedig**
**Penderfynwyd** bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.
**Rheswm**: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

***Roedd y Cynghorydd D Jones wedi datgan buddiant ac wedi gadael yr ystafell tra bod y materion cynllunio yn cael eu trafod.***

S/39103 Estyniad dau lawr i'r cefnlun, ynghyd â mân newidiadau cysylltiedig, yn 16 Heol Tyisha, y Tymbl. Mr Andrew a Mrs Nerissa Faulkner.

**(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd**
**Penderfynwyd** nodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau

**c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd**
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

**(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd**
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd.

**(d) Gwrthwynebu Cais Cynllunio**
S/39124 - Newid defnydd rhan o ddepo bws (Sui-Generis) i B2 (Diwydiannol Cyffredinol) yn Garej Derlwyn, Heol Y Neuadd, y Tymbl. Elliston Lettings Ltd.

**Penderfynwyd** gwrthwynebu'r newid defnydd arfaethedig hwn i B2 gan nad yw hyn yn addas ar gyfer y safle.

**(dd) Ymgynghoriad Cyn gwneud Cais Cynllunio**
Cynllun arfaethedig i adeiladu datblygiad preswyl yn cynnwys 60 tŷ annedd preswyl ynghyd â gwaith mynediad, parcio, tirlunio ac is-adeiledd cysylltiedig ar Llain 2B (tir i'r gogledd o'r cyswllt Gorllewinol), Cross Hands, Llanelli. Asbri Planning – Richard Bowen.

Roedd y Cyngor wedi ystyried yr ymgynghoriad cyn-cynllunio uchod ac wedi cytuno ar y canlynol:

Dylai cymysgedd o unedau gynnwys:

- Byngalos i'r henoed/pobl anabl.
- Request whether there is scope for vehicular access from the development to the park area.

- Request that there is a contribution towards the upgrade of the Park.

**Minute no. 83 – CDO Report**
The CDO provided an overview of her previously circulated report.

RCDF
It was confirmed that the response to the Welsh Government on the Tumble scheme had been provided within the required timescale. This preserves the availability of the grant subject to complying with the provision of additional information as required.

Wellbeing Report
It was reported that representatives of the Public Services Board had expressed satisfaction with the quality of the Wellbeing Annual Report as submitted by the Council.

Pride in your Patch
Cllr L Davies provided an overview of the above award scheme which had been very successful again in the current year. The Council offered it's thanks to Cllr L Davies for her efforts in organising the initiative.

**Minute no. 84 – Operations Manager's Report**
The Operations Manager provided an overview of her previously circulated report.
The report was noted.

**Minute no. 85 –Tumble Hall**

a) Licensable Activity
**Resolved to note** that the following licensable activities were ratified by the Council.
**Reason** – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003)

| | |
|---|---|
| July 27th | Bon Jovi Experience |
| 14th September | Benidorm comes to Tumble |
| 28th September | The Welsh Whisperer |
| 26th October | Mike Doyle |
| 30th November | Johnny 2 Bad UB40 |
| 13th December | Meatloaf, Cher & Michael Jackson |
| 14th December | Elvis, Tom Jones, Roy Orbison |
| 20th December | 4 Seasons, Dolly Parton and Neil Sedaka |
| 21st December | Celine Dion, Tina Turner and Meatloaf |

**Minute no. 86 –Marquee**
A report was provided on the recent purchase of the 2 marquees and the potential use of the marquees at the Cross Hands carnival.

**Minute no. 87 –Cross Hands Park**
The Clerk provided an overview of discussions held with officers of Cefneithin RFC with regard to the potential use of the playing fields and changing room at Cross Hands Park. This was noted.

**Minute no. 88 – Erw Non Llannon**

- Mae angen gofyn a fydd cyfle i ddarparu mynediad i gerbydau o'r datblygiad i ardal

y parc.

- Dylid gwneud cais bod cyfraniad yn cael ei wneud tuag at uwchraddio’r Parc.

**Cofnod rhif 83 – Adroddiad y SDC**

Cafwyd trosolwg gan y SDC o’i hadroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol.

Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

Cadarnhawyd bod yr ymateb i Lywodraeth Cymru wedi’i ddarparu o fewn yr amserlen angenrheidiol. Mae hyn yn sicrhau argaeledd y grant, yn amodol ar gydymffurfio â darparu gwybodaeth ychwanegol yn ôl y galw.

Adroddiad Llesiant

Adroddwyd bod cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynegi eu bodlonrwydd gydag ansawdd yr Adroddiad Llesiant Blynyddol a gyflwynwyd gan y Cyngor.

Cymoni Cymuned

Cafwyd trosolwg gan y Cynghorydd L Davies o’r cynllun gwobrwyo uchod, a oedd wedi bod yn llwyddannus iawn unwaith eto eleni. Roedd y Cyngor am estyn diolch i’r Cynghorydd L Davies am ei hymdrechion wrth drefnu’r fenter.

**Cofnod rhif 84 – Adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau**

Cafwyd trosolwg gan y Rheolwr Gweithrediadau o’i hadroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol.
Nodwyd yr adroddiad.

**Cofnod rhif 85 – Neuadd y Tymbl**

a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded

**Penderfynwyd** nodi bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.
**Rheswm** – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 2003)

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 27ain | Profiad Bon Jovi |
| Medi 14eg | Benidorm yn dod i’r Tymbl |
| Medi 28ain | Y Welsh Whisperer |
| Hydref 26ain | Mike Doyle |
| Tachwedd 30ain | Johnny 2 Bad UB40 |
| Rhagfyr 13eg | Meatloaf, Cher a Michael Jackson |
| Rhagfyr 14eg | Elvis, Tom Jones, Roy Orbison |
| Rhagfyr 20fed | 4 Seasons, Dolly Parton a Neil Sedaka |
| Rhagfyr 21ain | Celine Dion, Tina Turner a Meatloaf |

**Cofnod rhif 86 – Pabell Fawr**

Cafwyd adroddiad ynghylch y pryniad diweddar o’r ddwy babell fawr, a’r defnydd posib o’r pebyll yng ngharnifal Cross Hands.

**Cofnod rhif 87 – Parc Cross Hands**

Cafwyd trosolwg gan y Clerc o’r trafodaethau a gynhaliwyd gyda swyddogion Cwb Rygbi Cefneithin parthed â’r posibilrwydd o ddefnyddio’r caeau chwarae a’r ystafelloedd newid ym Mharc Cross Hands. Nodwyd hyn.

**Minute no. 88 – Erw Non Llannon**

The Council received correspondence from Hazel Newman of the County Council regarding a proposal to consider the sale of a plot of land at Erw Non Llannon. An explanation was provided of previous issues at this location including the problem of Japanese Knotweed and drainage problems.

***Cllr D Snaith declared an interest in the matter being considered and took no part in the deliberations on the matter.***

It was noted that the County Council has enquired as to whether the community council has any interest in the acquisition of the land. It was **resolved** that the Community Council would express an interest in the asset transfer of the land in the event that the residents are not interested in the purchase of land to extend their gardens.

**Minute no. 89 –Amman Valley Hospital**
The Council received a request for financial assistance from the Amman Valley Hospital Action Group to further the campaign for the retention of the hospital and the provision of X Ray services at the hospital. It was **resolved** that the hospital be offered free use of the Council Marquees as a contribution towards the upcoming event.

**Minute no. 90 –Community Lighting Scheme**
The Council received correspondence from Carmarthenshire County Council with regard to the lack of future availability of sodium light fittings for the highway lighting which are the responsibility of the Community Council. Information was provided regarding a scheme to renew the sodium fittings with low voltage lights which would result in reduced energy costs and a prolonged life for the bulbs. The cost of the replacement scheme was estimated at £13483.00 with an interest free loan scheme available to cover this cost over a period of 8 years costing £1685.38 per year. The cost of the loan would be set against a predicted energy saving cost of £1959 per year.
After a detailed discussion, it was **resolved** to proceed with the proposed scheme.

**Minute no. 91 –Consultation Health Authority**
The Council received correspondence from the Health Board regarding proposals to develop alternative trauma services for the community. It was **resolved** to distribute information to individual councillors regarding the proposals in order for them to respond accordingly.

**Minute no. 92 – Suspending Standing Orders**
**Resolved to** suspend standing orders in order to continue the transaction of business beyond 9.00 pm.

**Minute no. 93 – Hanging Baskets**
The Council received information from Roger Perry, one of the Council's caretakers regarding the need for some assistance over the Summer period with the watering of the hanging baskets. It was agreed to proceed with seeking temporary employment to assist the caretakers during peak periods to ensure that the watering duties could be completed safely. It was noted that there continues to be complaints received from members of the public regarding lack of baskets at certain geographical locations. It was further **resolved** to purchase additional baskets as required subject to Cllr P Williams and Cllr W James meeting with the caretakers to agree individual locations for the additional baskets. Any posts which are deemed not to be required in the community or are damaged will be removed.

**Cofnod rhif 88 – Erw Non Llannon**

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Hazel Newman o'r Cyngor Sir parthed â'r cynnig i ystyried gwerthu llain o dir yn Erw Non Llannon. Rhoddwyd esboniad o'r problemau blaenorol a oedd wedi effeithio ar y lleoliad hyn, gan gynnwys problem Clymog Siapan a phroblemau draeniad.

***Roedd y Cynghorydd D Snaith wedi datgan buddiant yn y mater dan sylw, ac ni gymerodd unrhyw rhan yn y trafodaethau yngylch y mater.***

Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi gofyn os oedd gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb yn caffael y tir. **Penderfynwyd** y byddai'r Cyngor Cymuned yn datgan diddordeb yn trosglwyddo asedau'r tir os nad oes gan y preswylwyr ddiddordeb mewn prynu'r tir er mwyn ymestyn eu gerddi.

**Cofnod rhif 89 – Ysbyty Dyffryn Aman**
Roedd y Cyngor wedi derbyn cais am gymorth ariannol oddiwrth Grŵp Gweithredu Ysbyty Dyffryn Aman er mwyn eu galluogi i barhau gyda'u hymgyrch i gadw'r ysbyty ac i ddarparu gwasanaeth pelydr - X yn yr ysbyty. Fel ein cyfraniad at y digwyddiad sydd yn yr arfaeth, **penderfynwyd** cynnig bod yr ysbyty yn cael benthyg Pebyll Mawr y Cyngor am ddim.

**Cofnod rhif 90 – Cynllun Goleuo Cymunedol**
Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch diffyg argaeledd goleuadau sodiwm yn y dyfodol ar gyfer y goleuadau ffordd y mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol amdanynt. Darparwyd gwybodaeth am gynllun i amnewid y goleuadau sodiwm gyda goleuadau o foltedd isel, a byddai hyn yn arwain at leihad yn y costau ynni ac yn golygu bod y bylbiau yn para'n hirach. Amcangyfrifir y byddai'r cynllun amnewid yn costu £13483.00 a byddai cynllun benthyca arian di-log yn cael ei gynnig i dalu'r gost yma yn ôl dros gyfnod o 8 mlynedd, ar gost blynyddol o £1685.38. Byddai cost y benthyciad yn cael ei osod yn erbyn arbediad mewn costau ynni o £1959 y flwyddyn. Wedi trafodaeth fanwl, **penderfynwyd** bwrw ymlaen gyda'r cynllun arfaethedig.

**Cofnod rhif 91 – Ymgynghoriad yr Awdurdod Iechyd**
Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth y Bwrdd Iechyd parthed â'r cynigion i ddatblygu gwasanaethau trawma amgen ar gyfer y gymuned. **Penderfynwyd** dosbarthu gwybodaeth ynghylch y cynigion i gynghorwyr unigol fel eu bod yn gallu ymateb yn gyfatebol.

**Cofnod rhif 92 – Atal y Rheolau Sefydlog**
**Penderfynwyd** atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh.

**Cofnod rhif 93 – Basgedi Crog**
Roedd y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth oddiwrth Roger Perry, un o ofalwyr y Cyngor, parthed â'r angen am gymorth i ddyfrio'r basgedi crog dros gyfnod yr haf. Cytunwyd mynd ati i gyflogi person dros-dro i helpu'r gofalwyr yn ystod cyfnodau brig i sicrhau bod y dyfrio'n cael ei wneud mewn ffordd ddiogel. Nodwyd ein bod yn dal i dderbyn cwynion oddiwrth aelodau'r cyhoedd parthed â'r diffyg basgedi crog mewn rhai lleoliadau daearyddol. Hefyd, **penderfynwyd** prynu rhagor o fasgedi yn ôl y galw, yn amodol ar bod y Cynghorydd P Williams a'r Cynghorydd W James yn cwrdd â'r gofalwyr i gytuno ar leoliadau unigol ar gyfer y basgedi ychwanegol. Bydd unrhyw byst y tybir eu bod yn ddiangen yn y gymuned, neu sydd wedi'u difrodi, yn cael eu tynnu i ffwrdd.

**Minute no. 94 – Caretakers**

The Clerk reported that concern had been expressed by the caretakers regarding a complaint that had been received from a member of the public relating to the fact that Tir Waun park was cut on 2 occasions with a photograph taken of him doing the cutting. It was noted that the caretakers considered this an invasion of their privacy and in fact the complaint was unfounded.

The council offered its full support to the caretakers and Councillors agreed to communicate with the complainant accordingly.

**Minute no. 95 – Councillor Reports**

Councillor D Jones reported that she has received a request for the Council to take part in a video recording that there remain only 5 days before the carnival. It was agreed that the Council will produce a video at the end of the meeting.

Cllr M Jones expressed concern regarding security arrangements for the hall when the alarm is triggered. It was noted that the Council has previously agreed to provide a link between the Hall CCTV system and the mobile phones of the staff, and it was agreed that this should be actioned as soon as possible to reduce the risk to staff in the event of an intruder in the hall.

Cllr D Snaith requested that the Council consider planting wildflower seeds on a triangular site at Heol Morlais/Bedw Non, Llannon. Cllr D Jones agreed to follow this up with the County Council.

Cllr L Davies enquired as to who has rights to make amendment to the Tumble Hall facebook accounts. It was agreed that both Cllr L Davies and Cllr L Williams will be given administration rights to the Facebook pages.

Cllr W James stated that the path at Mortuary Road is overgrown. Although this is not the responsibility of the Community Council, it was agreed that the caretakers will clear the path. He also reported that the bus stop sign has been removed at 18 Gwendraeth Road and that there is a need to cut the hedge as located between number 16-18 Gwendraeth Road Tumble. Cllr D Jones agreed to follow this up with the County Council.

**Minute no. 96 – Urgent Matters during Summer Recess**

It was **resolved** that the Chairman would be granted plenary powers to deal with any urgent matters over the summer period.

**Meeting ended at 9.38pm**

**Signed ............................................................ Date ...................................**

**Cofnod rhif 94 – Gofalwyr**

Dywedodd y Clerc bod y gofalwyr wedi mynegi consyrn ynghylch cwyn a dderbyniwyd oddiwrth aelod o'r cyhoedd. Roedd y gwyn yn honni bod y borfa ym Mharc Tir Waun wedi'i dorri ddwywaith, ac roedd ffotograff wedi'i dynnu ohono'n gwneud y gwaith.Nodwyd bod y gofalwr yn ystyried hyn i fod yn ymyriad ar breifatrwydd ac, mewn gwirionedd, nid oedd sail i'r gwyn.
Roedd y Cyngor wedi cynnig ei gefnogaeth llwyr i'r gofalwyr, ac roedd y Cynghorwyr wedi cytuno i gael gair gyda'r achwynwr.

**Cofnod rhif 95 – Adroddiadau'r Cynghorwyr**

Dywedodd y Cynghorydd D Jones ei bod wedi derbyn cais bod y Cyngor yn cymryd rhan mewn fideo, a dim ond pump diwrnod sydd ar ôl cyn y cynhelir y carnifal. Cytunwyd bod y Cyngor yn cynhyrchu fideo ar ddiwedd y cyfarfod.
Roedd y Cynghorydd M Jones wedi mynegi consyrn ynghylch y trefniadau diogelwch ar gyfer y neuadd pan fydd y larwm yn canu. Nodwyd bod y Cyngor wedi cytuno cyn hyn i ddarparu dolen gyswllt rhwng System Teledu Cylch Cyfyng y Neuadd a ffonau symudol y staff. Cytunwyd y dylid gwneud hyn cyn gynted â phosib er mwyn lleihau'r risg i staff pe byddai rhywun yn tresmasu yn y neuadd.
Gofynodd y Cynghorydd D Snaith bod y Cyngor yn ystyried plannu hadau blodau gwyllt ar y safle trionglog yn Heol Morlais/Bedw Non, Llannon. Cytunodd y Cynghorydd D Jones ddilyn hyn i fyny gyda'r Cyngor Sir.
Gofynnodd y Cynghorydd L Davies pwy sydd â'r hawl i newid cyfrifon Facebook y Neuadd. Cytunwyd bod y Cynghorydd L Davies a'r Cynghorydd L Williams ill dwy yn derbyn hawliau gweinyddol i'r tudalennau Facebook.
Dywedodd y Cynghorydd W James bod y llwybr yn Heol Mortuary yn llawn tyfiant. Er nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y llwybr hwn, cytunwyd bod y gofalwyr yn clirio'r llwybr. Hefyd, dywedodd bod yr arwydd safle bws yn 18 Heol y Gwendraeth wedi'i dynnu i ffwrdd, a bod angen torri'r clawdd rhwng rhifau 16-18 Heol y Gwendraeth, y Tymbl. Cytunodd y Cynghorydd D Jones ddilyn y mater i fyny gyda'r Cyngor Sir.

**Cofnod rhif 96 – Materion Brys yn ystod gwyliau'r Haf**

Penderfynwyd rhoi awdurdod llwyr i'r Cadeirydd i ddelio ag unrhyw faterion brys aa fydd yn codi yn ystod gwyliau'r haf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.38 yh**

**Llofnod ............................................................ Dyddiad...................................**